

GWYBODAETH TECHNEGOL A DIOGELWCH AR GYFER CLYBIAU FFERMWYR IFANC 2020

PWYSIG – A wnewch chi sicrhau bod y canllawiau yma'n cael ei trosglwyddo i'ch cyfarwyddwr/cynhyrhydd yn syth os gwelwch yn dda.

Dyddiad cau ar gyfer cysylltu parthed unrhyw anghenion llwyfannu, sain a goleuo yw 1 o'r gloch, dydd Gwener 14eg o Chwefror. Bydd cyfle i glybiau ymweld a'r theatr o'r 10fed i'r 14eg o Chwefror. Yr amserau bydd ar gael yw 10.30yb-11.30yb, 11.30yb-12.30yp, 1.30yp-2.30yp a 2.30yp-3.30yp (apwyntiad olaf ar yr 14eg am 11.30yb). Cysylltwch gyda Dylan Williams i drefnu apwyntiad.

Llwyfan

Lled y llwyfan wrth y prif lenni – 30'0" / 9.14m

Lled rhwng y llenni duon wrth ymyl y llwyfan (legs) – 23'8" / 7.22m

Dyfnder o flaen y prif lenni (apron) – 6'6" / 1.98m

Dyfnder tu ôl y prif lenni – 11'6" / 3.4m neu 18'6" / 5.64m

Darperir llenni du fel cefnlen oni threfnir yn wahanol. Nid yw'n bosib cysylltu (gludo/gwnio/staplo) unrhywbeth i'r llenni du.

Os defnyddir cefnlen yn hytrach na llenni du, un gefnlen i bob clwb a ganiateir, a rhaid i'r gefnlen yma fod wedi'i thrin i wrthsefyll tân, a rhaid iddi fod yn y theatr ar gyfer ei gosod cyn 2 o'r gloch ar brynhawn y gystadleuaeth. Staff y theatr yn unig a ganiateir i osod y gefnlen, ac ni fydd yn rhan o amser gosod a thynnu unrhyw gynhyrchiad. Mae'r un yn wir am osod y piano, ac unrhyw offer trydanol. Codir tâl hurio o £35 + TAW am ddefnyddio cefnlen sy'n eiddo i Theatr Felinfach.

Goleuo

Darperir golau cyffredinol cynnes.

Gellir darparu goleuadau arbennig eraill trwy drefniant ymlaen llaw cyn y dyddiad a nodir uchod.

1 sbot canlyn (aelod o'r clwb i'w weithredu dan oruwchwylliaeth y technegydd goleuo)

Offer Clyweled

Os ydych yn bwriadu defnyddio ffilm fel rhan o'ch cyflwyniad, bydd angen i'r ffilm fod ar fformat .mp4 neu .mov. Nid yw DVD yn dderbyniol.

Sain

Meic radio llaw (2)

Rydym yn defnyddio rhaglen gyfrifiadurol i chwarae pob effaith sain. Y fformatiau sy'n dderbyniol yw .wav, .aiff a .m4a. Nid yw mp3 yn dderbyniol. Disgwylir i'ch effeithiau sain, ynghyd a'r drefn, i fod gyda'r staff technegol o leiaf 24 awr cyn i'r clwb gystadlu. Medrwn ehostio'r effeithiau i'r staff. Cysylltwch am ragor o fanylion.

SYLWER: Ni allwn chwarae cryno ddisgiau na thapiau caset ar gyfer unrhyw effeithiau sain. Bydd angen i bob clwb ddarparu eu heffeithiau sain eu hunain - cysylltwch gyda'r theatr os ydych angen cyngor ynglŷn â ffynonellau.

Staffio

Darperir un technegydd goleuo, un technegydd sain, a dau aelod o staff y theatr ar y llwyfan.

Disgwylir i'r clybiau redeg y sioe (ciwio) o'r ystafell reoli yng nghefn yr awditoriwm.

Ni fydd staff y theatr yn dilyn sgriptiau

Mi fydd gan y person sy'n rhedeg y sioe gysylltiad â'r staff theatr ar lwyfan drwy ein sustem 'cans' (clustfeinion a meic)

Mae bob aelod o staff y theatr yn ddwyieithog.

Iechyd a Diogelwch

Gofynnir i bob clwb dderbyn pob cyfarwyddyd oddi wrth staff y theatr parthed materion iechyd a diogelwch.

Rhaid cael caniatad criw technegol y theatr i ddefnyddio unrhyw offer trydanol nad sy'n perthyn i'r theatr. Bydd angen bod prawf PAT cyfredol gan bob darn o offer trydanol. Mae gan y criw technegol yr hawl i wrthod defnydd o unrhyw offer a ystyrir yn beryglus.

Ni chaniateir unrhyw ddefnydd neu offer a allai arwain at berygl tân e.e. gwellt, gwair, canhwyllau, sigarennau ffug a.y.y.b.

Ni chaniateir taflu dŵr, bwydydd na phowdwr ar y llwyfan.

Mae penderfyniadau technegol staff y theatr yn derfynol.

Disgwylir i bob clwb i ddod â'i set i'r theatr rhwng 11 a 12.30 neu rhwng 2 a 4 ar ddydd y gystadleuaeth. Cysylltwch er mwyn trefnu eich amser 'get-in'. Disgwylir i bob clwb i gysylltu â'r theatr hyd yn oed os nad ydych angen unrhyw gyngor.

Am fanylion pellach, cysylltwch â Dylan Williams (01570 470697) neu Huw Evans (01545 572363), neu e-bostiwch Dylan.Williams@ceredigion.gov.uk neu Huw.Evans2@ceredigion.gov.uk